

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Annual Report and Accounts 1999-2000



Mae'r adroddiad  
yma wedi ei sgrifennu  
mewn Cymraeg Clir

BWRDD  
YR IAITH  
GYMRAEG



WELSH  
LANGUAGE  
BOARD



## Rhagarweiniad y Cadeirydd

Heb os y digwyddiad pwysicaf yn ystod y flwyddyn a aeth heibio oedd sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma'r corff democrataidd y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach yn atebol iddo. Dywedais y llynedd fod y Bwrdd yn edrych ymlaen at gydweithio â phawb yn y Cynulliad er lles y Gymraeg. Da yw gallu nodi eleni ein bod eisoes wedi sefydlu partneriaethau adeiladol a chynhyrchiol gyda'r corff yma - gyda nifer o'i aelodau ac o'i bwyllgorau. Hoffwn gyfeirio at ddwy o'r partneriaethau yma'n benodol.

Yn gyntaf, ein perthynas â Tom Middlehurst, Ysgrifennydd y Cynulliad sydd yn gyfrifol am y Gymraeg. O'r dechrau dangosodd Mr Middlehurst ei fod yn barod i gyd-drafod gyda ni ac i ofyn ein cyngor pan oedd angen hynny. Cawsom sawl cyfle hefyd i gydweithio gydag ef mewn gweithgareddau oedd yn ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg. Braff hefyd oedd ei glywed ar fwy nag un achlysur yn talu teyrnged i waith ac arbenigedd y Bwrdd.

Yn ail, y berthynas sy'n datblygu rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, dan gadeiryddiaeth ddeallus Cynog Dafis. Hwn yw'r Pwyllgor yn y Cynulliad sydd â goruchwyliaeth dros y Bwrdd. Ym mis Tachwedd 1999 ymddangosodd y Bwrdd yn ffurfiol gerbron y Pwyllgor. Ar gyfer yr ymddangosiad aethom ati i lunio dogfen gynhwysfawr, *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000 - 2005*. Mae hon yn ceisio crisialu'r prif anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer yr iaith dros y pum mlynedd nesaf. Wrth wneud hyn, mae'n cadw mewn golwg nod hir dymor y Bwrdd, sef gweld dwyieithrwydd yn dod yn sefydlog yng Nghymru.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, rhoesom wahoddiad i'r Pwyllgor wneud datganiad sy'n cefnogi ein gweledigaeth ni. Rwy'n falch iawn fod y Pwyllgor wedi derbyn y gwahoddiad. Ac fe gyhoeddodd nhw eu datganiad ym mis Chwefror eleni. Mae'n croesawu ein dogfen 'fel cyfraniad pwysig i'r dasg o lunio strategaeth er mwyn sicrhau adfywiad yr iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog'. Mae hefyd yn dweud fod y Pwyllgor 'yn cefnogi'n daer y nod o greu Cymru ddwyieithog fel nod cenedlaethol cyraeddadwy'. Rwy'n croesawu'r datganiad yma, am ei fod yn rhoi sêl bendith y Pwyllgor ar waith a gweledigaeth y Bwrdd. Ond rwyf hefyd yn ei ystyried yn gam pwysig iawn i gryfhau ymhellach y consensws sy'n bodoli o blaid y Gymraeg.



## Chairman's Introduction

The most important event over the past year was undoubtedly the establishment of the National Assembly for Wales. This is the democratic body to which the Welsh Language Board is now accountable. I noted last year that the Board was looking forward to working with everyone in the Assembly for the benefit of the Welsh language. It is good to report this year that we have already established a number of productive partnerships with the Assembly - with several of its members and its committees. I should like to refer to two in particular.

The first is the relationship which has developed between ourselves and Tom Middlehurst, the Assembly Secretary with the Welsh language as one of his responsibilities. From the beginning, Mr Middlehurst showed a willingness to discuss with us and to seek our advice when needed. We also had the opportunity to co-operate with him on activities to promote the language. It was good to hear him pay tribute to the Board's work and expertise on more than one occasion.

Secondly, the relationship which is developing between us and the Post-16 Education and Training Committee, under Cynog Dafis's able chairmanship. This is the Assembly Committee responsible for supervising the Welsh Language Board. Our appearance before the Committee in November 1999 was the incentive for the publication of a comprehensive document, *The Welsh Language: a Vision and Mission for 2000-2005*. This seeks to clarify the principal needs and priorities for the language over the next five years. It takes account of the Board's long term aim of stabilising bilingualism in Wales.

In submitting the document, we invited the Committee to make a statement of intent supporting and sharing the vision. I'm delighted that the Committee accepted this invitation, and subsequently released a statement in February of this year. This statement welcomes our document 'as a major contribution to the task of drawing up a strategy for the continued revitalisation of the Welsh language and the creation of a bilingual Wales'. It also states that the Committee 'strongly supports the aim of creating a bilingual Wales as an achievable national aim'. I welcome this statement, since it makes clear the Committee's approval for the Board's work and vision. But I also believe it to be an important step forward in strengthening further the consensus which exists in favour of the language.

Mae ein dogfen wedi ei seilio ar egwyddorion cynllunio ieithyddol pwrpasol ac effeithiol, maes y mae'r Bwrdd wedi ei ymrwymo iddo o'r dechrau. Mae'n dulliau cynllunio ieithyddol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi bod yn dameidiog yn hytrach nag yn gyfannol. Bu hyn yn wendid, ac mae'r Bwrdd yn awr, am y tro cyntaf, yn ceisio gwneud yn siwr fod popeth yn cael ei dynnu at ei gilydd. Rwy'n credu'n gydwytbodol ein bod ni yn y Bwrdd yn deall y broses, ac wedi profi ein gallu i'w gweithredu.

Rydym wedi ceisio gwneud yn siwr fod ein nodau a'n hamcanion yn glir, yn rhesymegol ac yn gryaeddadwy. Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau fod cydberthynas rhwng ein cynlluniau ni a chynlluniau ein partneriaid i hybu'r iaith Gymraeg. Mae cydweithio rhyngom ni a'n partneriaid yn elfen amlwg o'n gwaith. Drwy hyn, rydym yn rhannu profiadau, arbenigedd ac adnoddau er mwyn gwneud y gorau o'r hyn sydd ar gael.

Ni chafodd y Bwrdd yn llawn yr adnoddau y credwn sydd eu hangen arnom i weithredu ein cynlluniau i gyd. Serch hynny, ein nod unwaith eto dros y flwyddyn nesaf fydd defnyddio'r hyn sydd gennym yn y modd mwyaf effeithiol er budd yr iaith. Dyma'r prif feysydd y byddwn yn canolbwyntio arny'n nhw:

- cryfhau ymhellach ddefnyddio'r iaith yn y gymuned, drwy gynyddu ein cefnogaeth i fentrau iaith a gweithgareddau tebyg;
- annog teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth;

This document is based on the principles of effective and purposeful language planning, an area to which the Board has committed itself from the outset. Our approach to language planning in Wales over the past 20 years has tended to be piecemeal rather than holistic. That has been a weakness, and the Board is now seeking to ensure that, for the first time, future planning is far more cohesive. I truly believe that the Board understands the process, and that we have proved our ability to implement it.

We have tried to ensure that our aims and objectives are clear, logical and achievable. We have also tried to make sure that there is a correlation between our plans and those of our partners in terms of promoting and facilitating the use of the Welsh language. Collaborative partnerships form an obvious element of our work, sharing experiences, expertise and resources in order to make the most of what is available.

The Board has not been given in full the resources we believe to be necessary to implement all our plans. However, our aim once again in the year to come will be to use what we have in the most effective way possible for the benefit of the language. These are the main areas on which we intend to concentrate:

- strengthening further the use of the language in the community, by increasing our support of *mentrau iaith* (language initiatives) and similar activities;
- encouraging families to pass on the Welsh language between generations;



Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyflwyno copi o Adroddiad Blynyddol 1998-99 y Bwrdd i Tom Middlehurst AC, Ysgrifennydd dros Addysg ar ôl 16 a Hyfforddiant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gorffennaf 1999.

Rhodri Williams, Chairman of the Welsh Language Board, presenting a copy of the Board's 1998-1999 Annual Report to Tom Middlehurst AM, Secretary for Post - 16 Education and Training, National Assembly for Wales July 1999.

Dwy Iaith  
Dwywaith  
Two Languages  
Twice the

- perswadio'r rhai sy'n medru'r Gymraeg - yn enwedig ymysg yr ifanc - i ddewis yr opsiwn Cymraeg neu ddwyieithog pan fydd hwnnw ar gael;
- marchnata manteision dwyieithrwydd i blant, i rieni ac i ddarparwyr addysg.

Nid oes dim byd rhyfeddol ynglŷn â'r dewisiadau yma. Wrth gwrs, mae i'r Gymraeg ei phriod le yn y cartref ac yn y gymuned. Wrth gwrs, mae'n rhaid ceisio perswadio pobl i wneud y gorau o'r cyfleoedd cynyddol sydd ar gael i ddefnyddio'r iaith. Ond yn bennaf oll, gan addysg y mae'r rhan gwbl allweddol i'w chwarae. Pam? Achos mai addysg yw'r cyfrwng sy'n rhoi cyfle bellach i bob disgybl yng Nghymru ddod yn rhugl yn y ddwy iaith.

Dyma gonglfaen dwyieithrwydd sefydlog. Dyma fydd yn arwain at roi'r cyfle i bawb yng Nghymru ddefnyddio eu dewis iaith - y Gymraeg neu'r Saesneg - ymhob agwedd o'u bywydau. Mae'r egwyddor hon yn cyd-fynd â chwarae teg. Ond yn fwy na hynny, mae'n cyd-fynd hefyd, rwy'n credu, â dymuniadau'r mwyafrif helaeth o bobl Cymru.

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf i'r Bwrdd ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y drefn newydd. Mae hefyd yn cwmpasu blwyddyn lawn gyntaf fy nghadeiryddiaeth i. Bellach mae'r Cynulliad wedi penodi Bwrdd newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae cefndir yr aelodau newydd yn rhychwantu cwmpas eang o feysydd - o fyd busnes i fyd addysg, ac o'r gyfraith i gynllunio strategol. Mae gennym hefyd ddau arbenigwr rhyngwladol ar ddwyieithrwydd a chynllunio ieithyddol. Croeso mawr iddyn nhw i gyd. Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar fy hunan i'w harwain yn eu gwaith gyda'r Bwrdd. Ac rwy'n siwr y bydd dyfnder eu profiad yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth.

Mae'n briodol imi hefyd gynnig fy nioch personol i'r aelodau o'r Bwrdd a ddaeth i ddiwedd cyfnod eu haelodaeth. Rydym wedi cael tair blynedd gyffrous a gweithgar, ac mae sefyllfa'r iaith tipyn yn fwy sefydlog ar ddiwedd y cyfnod nag ar ei ddechrau. Rwy'n sicr eu bod nhw, fel finnau, wedi gwerthfawrogi bod yn rhan o ddatblygiad mor allweddol i ddyfodol ein gwlad ar adeg mor hanesyddol.

- persuading those who can speak Welsh - especially young people - to choose the Welsh or bilingual option where this is available;
- marketing the advantages of bilingualism to children, parents and education providers.

There is nothing surprising in these choices. Of course, the Welsh language has its place in the home and the community. Of course, it is necessary to try to persuade people to make the most of the increasing opportunities which exist to use the language. But above all, it is education which has the vital role to play. Why? Because this is the medium which by now gives every pupil in Wales the opportunity to become fluent in both languages.

This is the cornerstone of stable bilingualism. It is this which will lead to the opportunity for everyone in Wales to use their language of choice - Welsh or English - in every aspect of their lives. This principle is basic fair play. More than this, I believe it is also in accord with the wishes of the vast majority of Welsh people.

This is the first annual report which the Board has submitted to the National Assembly under the new regime. It also covers the first full year for which I have been Chairman. The Assembly has recently appointed a new Board, to serve for the next three years. The professional and personal backgrounds of the new members encompass a broad range of experience - from business to education and from law to strategic planning. We also have two international experts on bilingualism and language planning amongst the members. I welcome them all most warmly and personally look forward to leading them in their work with the Board. I am sure that their wealth of experience will enable us to realise the Board's vision.

It is also appropriate here for me to record my personal thanks to the outgoing Board members at the end of their term of office. We have had three exciting and productive years, at the end of which the Welsh language is in considerably better shape than it was at the beginning. I'm sure that the Board members, like myself, have appreciated the privilege of being part of such a vital development for the future of our country at such a historic time.

Rhodri Williams  
Ebrill 2000

Rhodri Williams  
April 2000

## Adroddiad y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gen i gyflwyno chweched adroddiad blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Pwrpas y tudalennau sy'n dilyn yw rhoi darlun o'n gwaith dros y cyfnod 1 Ebrill 1999 - 31 Mawrth 2000.

Bu'r misoedd yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhai prysur a chyffrous dros ben i ni yn y Bwrdd. Cawsom wahoddiad yn ystod y flwyddyn i gyflwyno i Bwyllgor Addysg ar ôl 16 a Hyfforddiant y Cynulliad ein dyheadau ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y tymor canolog. Y ddogfen *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005* oedd ein hymateb i'r cais hwnnw.

Yn ogystal ag ymgynghori wrth ddrafftio'r ddogfen, fe drefnon ni ddwy gynhadledd i drafod y ddogfen a'r targedau sydd ynddi yn ystod Mawrth 2000. Bu dros 100 o bobl yn bresennol yn y trafodaethau yma, ac roedd consensws ar y prif dargedau. Mae hyn yn bwysig, yn enwedig o ystyried y realiti ariannol. Daeth yn amlwg na fydd y cyllid sydd ar gael i'r Bwrdd yn ddigonol i ni fedru bwrw mlaen gyda'r holl weithgareddau y teimlwn sydd eu hangen i wireddu'r dymuniadau. Fe fyddwn felly yn fwy dibynnol nag erioed ar gydweithrediad, ewyllys da, ac ymroddiad ein partneriaid ymhob sector.

Dylwn gyfeirio'n arbennig at y mentrau iaith, sy'n gweithredu'n uniongyrchol ar lawr gwlad, i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ymarferol. Braff oedd clywed fod y Cynulliad hefyd yn ymwybodol o waith y mentrau, a'r angen am gefnogaeth bellach. Fe gytunodd y Cynulliad i neilltuo £140,000 ychwanegol o gyllid i'r Bwrdd ar gyfer 2000-01 i gefnogi gweithgareddau cymunedol fel mentrau iaith. Galluogodd hyn ni i gynyddu'n grant i'r mentrau 42% ar gyfer 2000-01. Roedd yn braff unwaith eto gweld cynnydd yn y nifer o fentrau iaith ledled Cymru, gyda 19 yn weithredol erbyn diwedd Mawrth 2000. Hoffwn ddiolch ar ran y Bwrdd iddyn nhw i gyd, yn staff a lluoedd o wirfoddolwyr, am eu brwdfrydedd a'u hymroddiad.

Dros y flwyddyn a aeth heibio rydym wedi parhau i gynyddu'n pwyslais ar farchnata cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a manteision dwyieithrwydd mewn nifer o feysydd. Rydym bellach wedi paratoi strategaeth farchnata gynhwysfawr. Mae hon yn cydblethu â'r *Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005*, a Chynllun Corfforaethol y Bwrdd ar gyfer 2000-2003. Mae'r strategaeth farchnata yn gosod y cynulleidfa oedd targed canlynol fel blaenoriaethau:

- rhieni
- pobl ifanc
- cwmnïau sector preifat
- siaradwyr Cymraeg.

## Chief Executive's Report

It gives me great pleasure to present the sixth annual report of the Welsh Language Board. The pages which follow aim to give an overview of our work for the period 1 April 1999 - 31 March 2000.

The months following the establishment of the National Assembly for Wales have been a busy and exciting time for us at the Board. We were invited during the year to present a document to the Assembly's Post-16 Education and Training Committee outlining our aims for the Welsh language in the medium term. Our response to that invitation was the *The Welsh Language: A Vision and Mission for 2000-2005*.

As well as consulting others during the drafting process, we organised two conferences in March 2000 to discuss the document and its targets. Over 100 people attended these discussions and there was consensus on the major targets. This is important, especially considering the economic reality. It became apparent that the funding available to the Board will not be adequate to allow us to proceed with all the activities we believe to be necessary to fulfil our aims. We will be more dependent than ever on the co-operation, good will and commitment of our partners in every sector.

I should refer particularly to the *mentrau iaith*, who work at grassroots level, to promote and facilitate the use of the language in practical ways. It was good to learn that the Assembly is also aware of the work of the *mentrau*, and the need for further support. This was demonstrated by the additional £140,000 allocated to the Board's budget, for funding community activities like *mentrau iaith*. This enabled us to increase our grant offer to the *mentrau* by 42% for 2000-01. It was pleasing to see once again an increase in the number of *mentrau iaith* across Wales, with 19 operational by the end of March 2000. I should like, on behalf of the Board, to thank them all, both staff and volunteers, for their enthusiasm and commitment.

Over the past year we have continued to increase the emphasis we place on marketing opportunities to use the language and the advantages of bilingualism in several fields. We have now drawn up a comprehensive marketing strategy. This ties in with the *Strategy for the Welsh Language, A Vision and Mission for 2000-2005*, and the Board's 2000-2003 Corporate Plan. The marketing strategy identifies the following target audiences as priorities:

- parents
- young people
- private sector companies
- Welsh speakers.



Rydym yn ddiolchgar i'r Cynulliad am gydnabod pwysigrwydd y gwaith yma ac am neilltuo cyllid ychwanegol tuag ato. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ymgymryd â phrosiectau newydd i dargedu'r cynulleidfaoedd dan sylw.

Mae'r Bwrdd wedi ymdrechu o'r cychwyn i gadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg a dwyieithog. Buom yn parhau i gyd-drafod gydag eraill yn y maes y sefyllfa bresennol mewn dilyniant drwy'r system addysg cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant galwedigaethol dwyieithog. Cawsom gynhadledd undydd hefyd i dynnu sylw at y diffyg darpariaeth ddwyieithog i blant ag anghenion addysgol arbennig, ac i gynnig ffyrdd o symud ymlaen yn y maes pwysig yma.

Parhaodd ein gwaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn y sector cyhoeddus. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 132 cynllun iaith Gymraeg statudol ac 11 cynllun addysg Gymraeg wedi eu cymeradwyo. Cynyddodd y pwyslais ar fonitro a gwneud yn siwr fod y cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Parhaodd ein gwaith gyda'r sector preifat hefyd. Mae nifer o ymgyrchoedd marchnata newydd ar droed i dargedu sectorau penodol - yn cynnwys dylunwyr, cynhyrchwyr bwyd a diod, a'r diwydiant arlwyio a thwristiaeth. Rydym yn cydweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill - Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Gwasanaeth Ymgynghorol Dylunio Cymru - ar rai o'r ymgyrchoedd hyn.

Mae'r flwyddyn a aeth heibio wedi bod yn un hynod o arwyddocaol i Gymru. Fe welsom ddatblygiadau cyffrous yn ein perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol, ar lefel gwleidyddion a swyddogion. Hoffwn ddiolch o galon i staff y Bwrdd am eu hyblygrwydd yn wyneb y datblygiadau hyn, ac am eu hymrwymiad a'u gweithgarwch di-ffael. Ar ran y staff i gyd, hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r Bwrdd am eu cydweithrediad parod a'u cyfeillgarwch dros y tair blynedd ddiwethaf. Rydym oll yn edrych ymlaen at ddatblygu perthynas yr un mor gydweithredol gyda'r aelodau newydd yn ystod y flwyddyn i ddod. I ni fel staff, dyma'r 'bartneriaeth' bwysicaf oll, yn y bôn.



We are grateful to the Assembly for recognising the importance of this work and for earmarking additional resources. These will enable us to embark on new projects to target the priority audiences.

The Board has endeavoured from the outset to maintain a strategic overview over Welsh medium and bilingual education. We continued to discuss with others in the field the present situation *vis a vis* continuity through the Welsh medium education and bilingual vocational training system. A one-day conference was also arranged to highlight the lack of bilingual provision for children with special educational needs, and to suggest ways of making headway in this important and hitherto neglected field.

Our work under the Welsh Language Act 1993 in the public sector continued, and by the end of the year 132 Welsh language schemes and 11 Welsh education schemes had been approved. The emphasis on monitoring and ensuring effective implementation of existing schemes increased.

Our work with the private sector also continued. We embarked on a number of marketing campaigns to target particular sectors - including designers, food and drink producers and the catering and tourism industry. We work in partnership with other bodies - the Welsh Development Agency, the Wales Tourist Board and the Welsh Design Advisory Service - on some of these campaigns.

The year reported on here has been an extremely significant one for Wales. We have seen exciting developments in our relationship with the National Assembly, both at the level of politicians and officials. I should like to thank the Board's staff most sincerely for their flexibility in the face of these developments, and for their unfailing commitment and hard work. On behalf of all the staff, I should also like to thank the members of the outgoing Board for their willing co-operation and friendship over the past three years. We all look forward to developing a similarly co-operative relationship with the new Board members during the year to come. As far as the staff are concerned, this in essence is the most important 'partnership' of all.

John Walter Jones  
Ebrill 2000 April 2000

Staff Bwrdd yr Iaith  
Gymraeg Mawrth 2000

Welsh Language Board  
Staff March 2000

## Cynllunio ieithyddol - y cyd-destun strategol

Mae'r ddogfen *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg* yn nodi'r pedair prif her ganlynol. Ym marn y Bwrdd, mae'n rhaid wynebu'r rhain er mwyn sicrhau dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg.

- Cynyddu niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.
- Newid arferion defnyddio'r iaith, ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu.
- Atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cyhoeddodd y Bwrdd y Strategaeth ym mis Rhagfyr 1996 ar ôl ymgynghoriad eang. Y ddogfen yma sy'n dal i lywio ein gwaith. Mae pob prosiect y mae'r Bwrdd yn ymwneud ag ef wedi ei gyplysu ag un neu fwy o'r pedair prif her.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, buom yn adolygu'r Strategaeth. Yn wir, rydym yn ystyried datblygu'r strategaeth yn waith parhaol bellach. Canlyniad y gwaith hyd yma yw'r ddogfen *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000 - 2005* sydd wedi ei chrybwyll eisoes. Ac ym mis Mawrth 2000, cafodd dwy gynhadledd eu trefnu ym Machynlleth a Chaerfyrddin i drafod y ddogfen gyda nifer o'n prif bartneriaid.

Mae'r ddogfen yn nodi'r angen am gynllunio ieithyddol bwriadus mewn pedwar gwahanol faes.

- Cynllunio caffaeliad - Cynhyrchu siaradwyr newydd drwy drosglwyddo iaith o fewn y teulu, drwy'r system addysg a thrwy ddysgu'r iaith i oedolion.
- Cynllunio defnyddio - Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith drwy wasanaethau a gweithgareddau cynlluniau iaith a darpariaeth arall. Cynnal ymgyrchoedd marchnata i annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd hynny.
- Cynllunio statws - Ehangu'r defnydd o'r iaith mewn meysydd cyfoes fel technoleg gwybodaeth, y Rhyngwrwd, ac mewn sefydliadau blaenllaw fel y Cynulliad Cenedlaethol.
- Cynllunio corpws - Gwneud yn siwr fod termau safonol yn dal i gael eu datblygu ar gyfer meysydd newydd. Sicrhau fod ffurfiau iaith hawdd eu deall yn cael eu defnyddio gan sefydliadau cyhoeddus.

## Language planning - the strategic context

The document *A Strategy for the Welsh Language* notes the following four main challenges. In the Board's opinion, these must be faced in order to secure a prosperous future for the Welsh language.

- Increasing the numbers of people able to speak the language.
- Providing opportunities to use the language.
- Changing the habits of language use, and encouraging people to take advantages of the opportunities provided.
- Reinforcing Welsh as a community language.

The Strategy was published by the Board in December 1996 following wide consultation. It continues to provide the overall steer for our work. Indeed, every project upon which the Board embarks is matched to one or more of the four main challenges.

During the year in question, we began a review of the strategy. In fact, we consider development of the strategy to be a continuous process. The initial result of this work is the document *The Welsh Language: A Vision and Mission for 2000-2005* already referred to. And in March 2000, two conferences in Machynlleth and Carmarthen were arranged to discuss the document with our main partners.

The document notes the need for purposeful language planning in four different areas.

- Acquisition planning - Producing new speakers of the language via the family, via the school system and by teaching the language to adults.
- Usage planning - Increasing the opportunities to use the language through language scheme services and activities and other provision. Running marketing campaigns to encourage people to take advantage of those opportunities.
- Status planning - Increasing the use of the language in contemporary domains like information technology, the Internet and in leading organisations like the National Assembly.
- Corpus planning - Ensuring that standardised terms continue to be developed for new areas of use. Ensuring that appropriate and user-friendly forms of the language are used by public sector bodies.

**The  
Welsh  
Language:**  
A Vision and Mission  
for 2000 - 2005

**Yr Iaith  
Gymraeg:**  
Cenhadaeth a  
Gweledigaeth  
ar gyfer 2000 - 2005



## Marchnata

Arolwg o Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2000  
Mae'r Bwrdd wedi comisiynu cwmni Ymchwil Beaufort o Gaerdydd i gynnal arolwg o sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru ar ddechrau'r mileniwm newydd.

Mae'r arolwg yn mesur agweddau pobl yng Nghymru tuag at yr iaith. Byddwn yn cymharu'r agweddau yma gyda chanlyniadau'r arolwg cynhwysfawr a gomisiynodd y Bwrdd (gan gwmni NOP) yn 1995-96. Mae'r arolwg hefyd yn asesu:

- lefel defnydd siaradwyr Cymraeg o'r iaith;
- eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn nifer o sefyllfaoedd;
- galw tebygol am ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb gyda 1,200 o bobl, yn cynnwys 500 o siaradwyr Cymraeg, yn ystod Mawrth 2000. Bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

Safle Gwe'r Bwrdd

Cafodd safle newydd y Bwrdd ar y we ([www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)) ei lansio ym mis Mehefin 1999. Bu'n llwyddiant mawr o'r cychwyn, gan ddenu hyd at 100,000 o ymweliadau â'r safle bob mis, o bob cwr o'r byd. Byddwn yn dal i ddatblygu'r safle dros y flwyddyn i ddod, yn ychwanegu adran rhyngweithiol wedi ei seilio ar waith y Llinell Gyswilt â'r Gymraeg, a diweddarau'r wybodaeth yn gyson.

## Marketing

Survey of the State of the Welsh Language 2000  
The Board has commissioned Beaufort Research of Cardiff to undertake a survey of the state of the Welsh language in Wales at the beginning of the new millennium.

The survey assesses the attitudes of people in Wales towards the language. We will be comparing these attitudes with the results of the comprehensive survey commissioned by the Board (from NOP) in 1995-96. The survey also investigates:

- the levels of use of the language by Welsh speakers;
- their confidence to use the language in a number of situations;
- the potential demand for more opportunities to use the language.

A total of 1,200 face to face interviews were held, including 500 with Welsh speakers, during March 2000. The results will be published before the end of the year.

The Board's Website

The Board's new website ([www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)) was launched in June 1999. It has been a great success from the outset, attracting up to 100,000 visits to the site each month, from all over the world. We will continue to develop the site over the year to come, adding a new interactive section based on the work of the LinkLine to Welsh, together with updating the whole site regularly.

Dwy Iaith  
Dwywaith y Dewis  
Two Languages  
Twice the Choice



### Ymgyrchoedd Marchnata

*Dwy Iaith - dwywaith y dewis.* Yn dilyn ymgyrchoedd peilot, rydym wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ar ymgyrch yn siroedd Caerfyrddin, Dinbych a Chonwy, er mwyn:

- codi proffil y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael;
- annog darparwyr i ddangos yn glir lle mae'r gwasanaethau yma i'w darganfod;
- annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau.

Ar yr un pryd, rydym wedi bod yn annog sefydliadau ymhob sector i ddefnyddio'r cynllun Iaith Gwaith. Mae hwn yn ddull hawdd o alluogi cwsmeriaid i adnabod lle mae gwasanaeth Cymraeg wyneb yn wyneb ar gael. Erbyn hyn, mae dros 25,000 o fathodynau ac arwyddion Iaith Gwaith wedi eu dosbarthu'n rhad ac am ddim i sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol o bob math.

### Defnyddia dy Gymraeg!

Mae pobl ifanc yn gynulleidfa darged bwysig ar gyfer ymgyrchoedd marchnata'r Bwrdd. Yn ystod 1999-2000 cychwynwyd ar ymgyrch i ledaenu'r neges *Defnyddia dy Gymraeg!* mewn ysgolion uwchradd cyfrwng

Hysbyseb ar gyfer ymgyrch cefn bysus, Gwanwyn 2000

Advert for bus rear campaign, Spring 2000



Gwenllian Carr, Swyddog Hysbysrwydd a Marchnata Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn cyflwyno bathodyn iaith Gwaith i Gareth Hunt, Optegydd gyda chwmmi Boots yng Nghaerdydd.

Gwenllian Carr, Publicity and Marketing Officer with the Welsh Language Board presenting Gareth Hunt, an Optician with Boots in Cardiff, with a Iaith Gwaith (Working Welsh) badge.



### Marketing Campaigns

*Two languages - twice the choice.* Following a number of pilot projects, we embarked during the year on a campaign in Carmarthenshire, Denbighshire and Conwy, with the aim of:

- raising the profile of available Welsh language services;
- encouraging providers to show clearly where these services are available;
- encouraging Welsh speakers to use these services.

At the same time, we have been encouraging organisations in every sector to make use of the Iaith Gwaith (Working Welsh) scheme. This is a scheme to enable customers to recognise where an over-the-counter Welsh language service is available. To date, we have distributed over 25,000 Iaith Gwaith badges and signs free of charge to public, private and voluntary sector organisations of all kinds.

### Use your Welsh!

Young people are an important target audience for the Board's marketing campaigns. In 1999-2000 we embarked on a campaign to bring the *Defnyddia dy Gymraeg!* (Use your Welsh!) message to pupils in



Y grwp Mega yn lansio ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg!' yn Eisteddfod yr Urdd 1999.

The boy band Mega launching the 'Use your Welsh!' secondary schools' campaign at the Urdd Eisteddfod, 1999.



Cymraeg. Y bwriad yw annog pobl ifanc sydd ar fin gwneud penderfyniadau pwysig am y tro cyntaf, fel

- agor cyfrif banc,
- cofrestru ar gyfer pleidleisio, neu
- gwneud cais am drwydded yrru, i ddewis yr opsiwn Cymraeg lle mae'n bosib.

Rydym wedi datblygu pecyn hyfforddi arbennig ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n cynnwys gweithgareddau hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil ar gyfer y byd gwaith a bywyd cymdeithasol. Mae pob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi derbyn pecyn yn ystod 1999. Rydym hefyd wedi cynnal sesiynau hyfforddi gydag athrawon a disgyblion 6ed dosbarth yn ystod y flwyddyn.

Ar yr un pryd, rydym wedi bod yn cynnal ymchwil gyda disgyblion 16-18 oed yn yr ysgolion yma ar eu hagweddau tuag at yr iaith, a'u defnydd ohoni y tu allan i'r ysgol. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ystod yr haf.

#### Magu plant yn ddwyieithog

Un o brif flaenoriaethau marchnata'r Bwrdd yw ceisio perswadio rhieni sy'n siarad Cymraeg o bwysigrwydd defnyddio'r iaith gyda'u plant yn y cartref. Ers tair mlynedd bellach, mae taflenni ar fanteision dwyieithrwydd cynnar i blant wedi eu cynnwys mewn pecynnau 'Bounty'. Pecynnau yw'r rhain y bydd mamau sy'n rhoi genedigaeth mewn ysbytai yng Nghymru - tua 31,000 bob blwyddyn - yn eu derbyn.

Rydym wedi cychwyn ar brosiect peilot gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â Mentrau Iaith Myrddin. Rydym wedi datblygu deunyddiau pwrpasol i alluogi'r gweithwyr proffesiynol yma i drafod dewis iaith y cartref gyda rhieni. Bydd hyn yn digwydd yn y cyfnod allweddol cyn bod plentyn yn cael ei eni ac yn ystod y misoedd cyntaf ar ôl yr enedigaeth. Byddwn yn asesu llwyddiant y prosiect peilot yn ffurfiol yn ystod 2000-01. Mae'r argoelion cynnar yn dda, a byddwn yn ehangu'r ymgyrch i siroedd Dinbych a Chonwy yn ystod y flwyddyn i ddod.

Welsh-medium and bilingual secondary schools. The intention is to encourage young people, who are about to make important life decisions, such as

- opening a bank account,
- registering to vote, or
- applying for a driving licence, to choose the Welsh option wherever possible.

A training pack for Welsh medium and bilingual schools was produced. This contains activities to promote bilingualism as a skill in the workplace and socially. The pack was distributed to all Welsh medium and bilingual secondary schools in Wales during 1999, and training sessions held with teachers and 6th form pupils during the year.

At the same time, we have conducted questionnaire research among 16-18 year-old pupils in these schools on their attitudes towards the language, and their use of it outside school. We intend to publish the results during the summer.

#### Raising children bilingually

One of the Board's main marketing priorities is to try to persuade Welsh-speaking parents of the importance of using the language in the home with their children. For the past three years, leaflets outlining the advantages to children of early bilingualism have been included in Bounty packs given to mothers who give birth in hospitals in Wales - around 31,000 a year.

During 1999-2000, we began a pilot project in Carmarthenshire, in collaboration with the county's midwives and health visitors and Mentrau Iaith Myrddin. Specific materials were developed to enable professional workers to discuss language choice in the home with parents, in the crucial period leading up to the birth of a baby and during the first months following the birth. We shall be formally assessing the success of the project during 2000-01. The early signs are encouraging, and we will extend the campaign into Denbighshire and Conwy during the year to come.

Sue Horton a Jack (10 wythnos) yn trafod manteision dwyieithrwydd gyda Bethan Jones, ymwelydd iechyd yn meddygfa Tywi, Nantgaredig.

Sue Horton and 10 weeks old Jack discussing the advantages of bilingualism with Health Visitor Bethan Jones at Nantgaredig Surgery.



## Cadw Mewn Cysylltiad

### Cyfarfodydd Agored

Dros y flwyddyn dan sylw, mae'r Bwrdd wedi dal i gynnal ei gyfarfodydd yn agored, ac i deithio ledled Cymru, er mwyn rhoi cyfle i bobl o bob ardal fynychu cyfarfodydd. Mae'r manylion yn Atodiad 1.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd yma, bu'r Cadeirydd yn trafod yn llai ffurfiol strategaeth y Bwrdd mewn nifer o gyfarfodydd cyhoeddus.

### Cylchredeg Newyddion

Rydym yn datblygu nifer o ddulliau newydd o gadw mewn cysylltiad ar gyfer 2000-01. Bydd cylchlythyr chwarterol, *Bwletin*, yn cael ei lansio'n gynnar yn y cyfnod. Fe fydd newyddion yn cael ei gylchredeg i'r rhai sydd â diddordeb drwy'r e-bost yn rheolaidd. Croesawn y cyfleoedd mae technoleg gyfoes yn ei roi i dderbyn sylwadau ac awgrymiadau cynnar ar gynlluniau newydd oddi wrth ein partneriaid ac aelodau'r cyhoedd.

Yn ogystal, wrth gwrs, parhaodd y Bwrdd i ryddhau datganiadau rheolaidd i'r wasg a'r cyfryngau - dros 60 yn ystod 1999-2000.

### Cysylltiadau Tramor

Cafodd y Bwrdd wahoddiadau i gyfrannu i nifer o gynadleddau a seminarau rhyngwladol ar agweddau o ddwyieithrwydd a ieithoedd leiafrifol - yn yr UDA, Ffindir, Catalonia ac Iwerddon. Rydym hefyd yn derbyn nifer fawr o ymholiadau o bob cwr o'r byd, oddi wrth sefydliadau ac unigolion sy'n awyddus i rannu profiadau a dysgu o'r arbenigedd sydd gennym yng Nghymru ar ddwyieithrwydd.

## Keeping in Touch

### Open Meetings

During the year under review, the Board has continued to hold its meetings in public, and to travel around Wales, in order to give people from all areas the opportunity to attend meetings. Details are given in Annex 1.

In addition to these meetings, the Chairman conducted a number of less formal public meetings to discuss the Board's strategy.

### Circulating News

We are developing a number of new ways of keeping in touch for 2000-01. A quarterly newsletter, *Bwletin*, will be launched early in the year. We circulate news regularly via e-mail to interested parties. The Board greatly welcomes the opportunities offered by contemporary technology to receive preliminary comments and suggestions on new plans from our partners and the public.

In addition, of course, we continue to issue regular press releases - over 60 during 1999-2000.

### Overseas Contacts

The Board received invitations to participate in a number of international conferences and seminars on aspects of bilingualism and minority languages - in the USA, Finland, Catalonia and Ireland. We also receive many enquiries from all over the world, from organisations and individuals eager to share experiences and learn from the expertise we have in Wales on bilingualism.

Cylchlythyr newydd  
y Bwrdd, *Bwletin*

The Board's new  
newsletter, *Bwletin*



## Datblygiadau ieithyddol

### Hyrwyddo ieithoedd cymunedol

Ers mis Mai 1999, gyda chymorth ariannol y Comisiwn Ewropeaidd, mae'r Bwrdd yn cynnal safle gwe newydd ([www.cymuned.org.uk](http://www.cymuned.org.uk)). Pwrpas y safle - sydd ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Sbaeneg - yw darparu cyngor a chanllawiau ar gyfer cymunedau ieithoedd llai. Mae'n cynnig nifer o ffyrdd ymarferol i gryfhau iaith lai yn y gymuned ac i gynyddu ei defnydd. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar:

- gynllunio cymunedol;
- llwyddiant mudiadau cymunedol fel mentrau iaith;
- gweithgareddau ar gyfer pobl o bob oed.

Mae'r rhan fwyaf o'r safle wedi ei seilio ar drafodaethau yn dilyn cynhadledd Ewropeaidd y Bwrdd yng Nghaerdydd yn 1998 ar gynllunio ieithyddol cymunedol.

### Terminoleg

Mae gwaith y Bwrdd ar ddatblygu a safoni terminoleg ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau. Bellach mae fersiwn diwygiedig ac ehangach o'r *Geiriadur Terminoleg Trefniadaeth*, a rhestrau safonol yn ymwneud â rhai o ffesydd pwnc y Cynulliad, ar safle gwe'r Bwrdd.

### Llinell Gyswilt â'r Gymraeg

Dyma'r cynllun sy' ar waith ers dechrau 1998. Am bris galwad leol, mae'n cynnig gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a chyfieithiadau byrion i ymholwyr. Er mai'r Bwrdd sy'n rheoli'r cynllun o'i swyddfeydd, caiff y gwaith pob dydd ei wneud gan fyfyrwyr ôl-raddedig o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae'r cynllun yn dal i ffynnu, ac erbyn diwedd y cyfnod dan sylw

## Language Developments

### Promoting community languages

In May 1999, with financial assistance from the European Commission, the Board launched a new website ([www.cymuned.org.uk](http://www.cymuned.org.uk)). This trilingual Welsh, English and Spanish site aims to offer advice and guidelines for minority language communities. It offers a number of practical ways in which a lesser-used language can be strengthened in the community and its use increased. It also includes information on:

- community planning;
- the success of initiatives like *mentrau iaith*;
- activities for people of all ages.

The bulk of the site is based on the findings of a European conference organised by the Board in Cardiff in 1998 on community language planning.

### Terminology

The Board's work on developing and standardising terminology for the National Assembly for Wales continues. An updated and extended version of the *Dictionary of Organisational Terms*, and standard lists dealing with some of the Assembly's areas of responsibility, are available on the Board's website.

### LinkLine to Welsh

This is the scheme, started in early 1998, which offers information about the Welsh language and short translations for the price of a local phone call. Although the project is managed by the Board from its offices, the Line is staffed by postgraduate students from the Welsh Department at the University of Cardiff.

Sian Eleri Richards a Rhodri Llwyd Morgan o'r Llinell Gyswilt â'r Gymraeg yn cyflwyno bwydlen ddwyieithog i Fragdy Brains adeg Cwpan Rygbi'r Byd 1999.

Sian Eleri Richards and Rhodri Llwyd Morgan of the Linkline to Welsh presenting Brains Brewery with a bilingual menu during the Rugby World Cup 1999.



roedd nifer y galwadau wedi codi i tua 5,000. Yn ogystal â delio â galwadau ar y llinell, mae'r tîm hefyd yn cynnig cymorth i brosiectau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu bwydlenni dwyieithog mewn partneriaeth â Gweithrediaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru.

#### Cymraeg Clir

Mae'r Bwrdd yn parhau i gefnogi'r cynllun hwn sy'n annog pobl i ddefnyddio Cymraeg syml, hawdd ei ddeall, mewn dogfennau ar gyfer y cyhoedd. Rydym yn marchnata cyfrol Dr Cen Williams *Cymraeg Clir* - cyhoeddiad ar y cyd rhwng y Bwrdd, Canolfan Bedwyr a Chyngor Gwynedd. Rydym hefyd yn ceisio dilyn canllawiau'r cynllun yn y deunydd yr ydym ni ein hunain yn ei gynhyrchu ar gyfer y cyhoedd!

Arolwg o Bolisi'r Celfyddydau a Diwylliant  
Ym mis Ebrill 2000, cyflwynodd y Bwrdd ymateb ysgrifenedig cynhwysfawr i'r arolwg yma gan y Cynulliad. Mae'r ymateb i'w weld ar safle gwe'r Bwrdd.

#### Y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

Mae'r Bwrdd wedi bod yn pwyso'n galed i sicrhau fod dwyieithrwydd a'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn llawn yn y cyd-destun yma. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran rhaglen Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. (Mae bron i 85% o siaradwyr Cymraeg Cymru yn byw yn yr ardal yma.) Rydym wedi cychwyn ar y gwaith o baratoi canllawiau ar gynnwys y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y rhaglen hon. Bydd y canllawiau yma'n cynnig cyngor ar ba agweddau y dylai'r rhai sy'n llunio prosiectau eu hystyried. Byddan nhw hefyd yn cynnig rhestr o bosibiliadau ar gyfer prosiectau penodol i hybu defnyddio'r Gymraeg.

It continues to flourish and by the end of the period under review, the number of calls received had increased to around 5,000. In addition to dealing with calls to the LinkLine, the team also offers support to specific projects. These include developing bilingual menus in partnership with the Food Directorate of the Welsh Development Agency.

#### Cymraeg Clir (Clear Welsh)


The Board continues to support this project, which encourages people to use simple, easily understood Welsh in documents intended for the general public. We sell Dr Cen Williams's book *Cymraeg Clir* - a joint publication between the Board, Canolfan Bedwyr and Gwynedd Council. We also attempt to follow its guidelines in the materials we produce for the public!

#### Arts and Culture Policy Review

In April 2000, the Board submitted a full written response to this review conducted by the Assembly. The response may be seen on the Board's website.

#### European Structural Funds

For over a year, the Board has been pressing for bilingualism and the Welsh language to be fully considered in this context. This is particularly relevant to the Objective 1 programme in West Wales and the Valleys (where almost 85% of Wales' Welsh speakers live). We have started preparing guidelines on the inclusion of Welsh and bilingualism in this programme. These guidelines will offer advice on what aspects those who are planning projects should consider. They will also include a list of possibilities for specific projects to promote the use of Welsh.



Logo Cymraeg Clir

The *Cymraeg Clir* (Clear Welsh) Logo

## Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol

### Arolygu paratoi cynlluniau iaith

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod camau pendant i'w dilyn gan y Bwrdd a chan gyrrff cyhoeddus wrth fynd ati i baratoi cynlluniau iaith. Pwrpas y cynlluniau hyn yw gweithredu egwyddor ganolog y Ddeddf, sef trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Ers 1995, mae cyfanswm o 132 cynllun iaith wedi eu cymeradwyo. Mae rhestr lawn yn Atodiad 5.

Yn y flwyddyn dan sylw, rydym wedi derbyn 23 cynllun i'w cymeradwyo a rhoi hysbysiad i 16 corff arall i baratoi cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys sawl coleg addysg bellach ac addysg uwch. Ymysg y cyrff a dderbyniodd gymeradwyaeth i'w cynlluniau oedd Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, yr Awdurdodau Tân, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a Gwasanaeth Erllyn y Goron.

Braf yw nodi fod llyfrynau cais Cymraeg ar gael oddi wrth Gynilion Cenedlaethol am y tro cyntaf erioed, a bod safleoedd gwe dwyieithog yn cael eu datblygu, er enghraifft gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r DVLA. Mae nifer gynyddol o gyrrff yn datblygu llinellau ffôn Cymraeg, ac mae rhestr ohonyn nhw i'w gweld isod.

Nwy Prydain	0845 9 555 511
Trwyddedu Teledu	0117 975 8706
Tollau Tramor a Chartref EM	029 2038 6001
Cyllid y Wlad/ Hunan asesiad/cyflogwyr	0845 7 585 156
Credyd treth teuluol/yswariant gwladol	0845 7 660 830
BT	0800 800288
Swyddfa'r Post	0845 7 468 469
Gwasanaeth Cenedlaethol	
Ymholiadau Rheilffordd	0845 6 040 500
Gwasanaeth y Llysoedd - Cyffredinol	0800 212368
Gwasanaeth y Llysoedd - Rheithgorau	01286 678200
Swyddfa Ystadegau Gwladol	
Materion cofrestru	0151 471 4575
Ystadegau	01633 813381
Cofrestrfa Tir	0845 3 074 535
Asiantaeth Safonau Gyrru	0870 0 100 372

Yn ogystal â'r cynnydd mewn gwasanaeth Cymraeg a ddaw yn sgil cynlluniau iaith, maen nhw'n cynnwys agweddau creadigol a dylanwadol. Mae enghraifft dda o hyn yng nghynlluniau Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru. Maen nhw'n gwahodd pawb sy'n gwneud cais am grant i ddangos sut y bydd dwyieithrwydd y gymuned yn cael ei adlewyrchu yn y gweithgareddau sy'n derbyn grant.

## Public and Voluntary Sectors

### Supervising the preparation of language schemes

The Welsh Language Act 1993 notes definite steps to be followed by the Board and by public bodies in the preparation of Welsh Language Schemes. The aim of these schemes is to implement the central principle of the Act, which is to treat the Welsh and English languages on the basis of equality. Since 1995, a total of 132 schemes have been approved. A full list appears in Annex 5.

In the year under review, 23 schemes were received by the Board for approval, and notices were issued to a further 16 bodies to prepare schemes, including several further and higher education colleges. Among organisations which received approval for their schemes were the University of Wales College of Medicine, the Fire Authorities, the Welsh Ambulance Service, and the Crown Prosecution Service.

It's good to note that Welsh language application booklets are now available for the first time from National Savings and that bilingual websites have been developed, for example by the Ministry of Defence and the DVLA. An increasing number of organisations are developing Welsh language telephone helplines, a list of which is shown below.

British Gas	0845 9 555 511
TV Licensing	0117 975 8706
HM Customs & Excise	029 2038 6001
Inland Revenue	
Self assessment/employers	0845 7 585 156
Family tax credit/NI	0845 7 660 830
BT	0800 800288
The Post Office	0845 7 468 469
National Rail Enquiry Service	0845 6 040 500
Court Service - General	0800 212368
Court Service - Juries	01286 678200
Office for National Statistics	
Registration matters	0151 471 4575
Statistics	01633 813381
Land Registry	0845 3 074 535
Driving Standards Agency	0870 0 100 372

In addition to the increased services which are a direct consequence of the implementation of Welsh language schemes, they also include creative and influential elements. Good examples of this are found in the schemes of the National Lottery Charities Board, the Arts Council of Wales and the Sports Council for Wales, where those who make grant applications are invited to show how bilingualism in the community will be reflected in the activities supported by the grant.

### Arolygu gweithrediad cynlluniau iaith

Rydym wedi parhau i gynyddu'r pwyslais ar y gwaith o arolygu gweithrediad cynlluniau iaith. Bwriad y broses arolygu yw sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig. Yn ogystal â derbyn adroddiad blynyddol ar weithrediad cynlluniau gan y cyrff eu hunain, mae'r Bwrdd yn:

- cynnal ciparolygon annibynnol achlysurol;
- dilyn unrhyw gwynion;
- comisiynu adroddiadau ar agweddau penodol fel bo angen.

Yn ystod 1999-2000, cawsom 64 o adroddiadau perfformiad blynyddol. Mae manylion i'w cael yn Atodiad 5.

Derbyniodd y Bwrdd dros 250 o gwynion yn ymwneud â diffyg gweithredu cynlluniau iaith statudol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Roedd hyn yn ostyngiad bach ar y blynyddoedd blaenorol. Mae'n bosib fod hyn yn adlewyrchu gwelliant newn gwasanaethau Cymraeg wrth i'r cyrff weithredu eu cynlluniau. Bydd y Bwrdd yn dwyn cwynion at sylw'r corff priodol, yn gofyn am ymateb ac yn parhau â'r ddeialog nes bydd y mater wedi ei ddatrys. Os bydd rhaid, byddwn yn cynnal ymchwiliad, fel y gwnaethom yn achos CADW, Adran Iechyd y Cynulliad, Cyngor Sir Gaerfyrddin ac eraill.

### Cyfleustodau

Buom yn dal i drafod gyda nifer o gwmnïau rheilffordd yn ystod y flwyddyn dan sylw, er mwyn gwneud yn siwr eu bod nhw'n cynnig gwasanaethau dwyieithog i'w cwsmeriaid. Bydd cael rhwydwaith Cymreig yn hwyluso hynny.

Bu'r Bwrdd hefyd yn helpu nifer o'r gwasanaethau eraill sydd wedi eu preifateiddio i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg a'u hannog i baratoi cynlluniau a pholisïau iaith. Cafodd cynllun iaith Nwy Prydain Ynni Cartref ei gymeradwyo yn ystod y flwyddyn.

### Partneriaethau

Datblygodd y bartneriaeth rhwng y Bwrdd a Chyngor Defnyddwyr Cymru ymhellach yn ystod y flwyddyn.

Mae'r astudiaeth a gomisiynodd y Cyngor Defnyddwyr ar ddarpariaeth ddwyieithog yn y sector iechyd wedi'i gwblhau a chafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym Mehefin 2000. Mae'r adroddiad yn nodi diffygion difrifol yn y ddarpariaeth, ac mae'r Bwrdd yn trafod gwersi'r astudiaeth gyda'r Cynulliad a'r sector iechyd.

Mae Cyngor Defnyddwyr Cymru hefyd wedi bod yn gwneud astudiaeth ar wasanaethau Cymraeg i bobl ifanc.

Rydym wedi cyfrannu at ddatblygiad Gwerth Gorau ym maes llywodraeth leol. Braff yw nodi y bydd y fframwaith adrodd hwn yn gosod yr angen i awdurdodau lleol adrodd i'r cyhoedd am ansawdd eu gwasanaethau Cymraeg.

### Monitoring the implementation of language schemes

Last year saw the continued increase of emphasis on work to monitor the implementation of those language schemes already approved. The monitoring process is aimed at ensuring that Welsh language services are being offered to Welsh speakers. In addition to receiving annual implementation reports from the organisations themselves, the Board also:

- undertakes independent assessments from time to time;
- reviews complaints;
- commissions reports on particular aspects as needed.

During 1999-2000, 64 annual performance reports were received. Details are given in Annex 5.

The Board received over 250 complaints during the year relating to failures of implementation of statutory language schemes. This represented a small decrease on the previous years. This possibly reflects an improvement in Welsh language services as organisations set about implementing their schemes. The Board draws any complaints to the attention of the appropriate organisation, and asks for a response. The matter is pursued until it is resolved. If necessary, we hold an investigation, as happened in the case of CADW, the Health Department of the Assembly, Carmarthenshire County Council and others.

### Utilities

Discussions continued with a number of rail operators during the year under review, in order to ensure that customers are offered a bilingual service. The establishment of a Welsh network will facilitate this process.

The Board also assisted a number of other privatised services to develop Welsh language services and to prepare voluntary language schemes and policies. The Welsh language scheme of British Gas Home Energy was approved during the year.

### Partnerships

The partnership between the Board and the Wales Consumers' Council progressed during the year.

The study on bilingual provision in the healthcare sector commissioned from the Consumers' Council was completed, and the report published in June 2000. The report has identified serious failings in provision, and the Board is discussing the lessons learned with the Assembly and with healthcare providers.

The Wales Consumers' Council has also undertaken a study of Welsh language services for young people.

We have contributed to the development of Best Value for local government, and it is good to note that this reporting framework will require local authorities to report to the public on the quality of their Welsh language services.



Cyhoeddodd y Bwrdd *Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar*. Mae'n rhoi arweiniad ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog sensitif a naturiol mewn sefyllfaoedd anodd a gofidus. Mae wedi ei anelu'n bennaf at bobl sy'n gweithio ym meysydd gofal a chynghori, fel iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn y sector gweinyddu cyfiawnder. Gall hefyd fod o ddefnydd i unrhyw un sydd yn anghyfarwydd â gweithio mewn awyrgylch dwyieithog.

#### Mudiadau Gwirfoddol

Mae'n cydweithrediad â'n partneriaid yn y sector gwirfoddol yn parhau ac mae'n galonogol gweld y cynnydd yn y nifer o fudiadau sy'n paratoi cynlluniau iaith ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Yn ystod y cyfnod yma cafodd 15 o gynlluniau iaith eu cymeradwyo, gan gynnwys Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Croesffyrdd, Cymdeithas Canolfannau Cyngori Cenedlaethol, Cymdeithas y Plant, a Gwobr Dug Caeredin.

Oherwydd y cynnydd, mae pwyslais gwaith y Bwrdd gyda'r sector gwirfoddol wedi parhau i newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae llai o angen dwyn perswâd, nawr fod lefel yr ymwybyddiaeth o'r anghenion yn y sector yn lled uchel. Bellach, mae'r pwyslais ar hwyluso datblygiad ymarferol. Bydd rôl y mentrau iaith, yn cydweithio â'r gwasanaethau gwirfoddol ar lefel sirol, yn bwysig yn y broses o ddatblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog ar lawr gwlad.

The Board published *The Language of a Caring Service*, which offers guidance on providing a sensitive and natural bilingual service in difficult and stressful situations. It is primarily intended for those who work in the care and counselling sectors, such as health and social care, and in the administration of justice. It can also be used by anyone who is unfamiliar with working in a bilingual environment.

#### Voluntary Organisations

Our co-operation with voluntary sector partners continued and it is heartening to see an increase in the number of organisations preparing language schemes at regional and national level. During the period under review, 15 language schemes were approved, including Merthyr Tydfil Voluntary Action, Crossroads, The National Association of Citizens' Advice Bureaux, the Children's Society and the Duke of Edinburgh Award.

Because of the progress made, the emphasis of the Board's work with the voluntary sector has continued to shift. The level of awareness in the sector of the need for bilingual provision is now reasonably high. Our focus is now on facilitating practical developments at a community and national level. The role of the *mentrau iaith*, co-operating with voluntary services at a county level, will become increasingly important in the development of bilingual provision in individual communities.

Lansio cynllun iaith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. John Walter Jones (chwith), Prif Weithredwr ByIG gydag Eifion Pritchard (canol), Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, a Don Page, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth.

Launching the Welsh Ambulance Services NHS Trust language scheme. John Walter Jones (left), Chief Executive of the Welsh Language Board with Eifion Pritchard (centre), Chairman of the Trust and Don Page, the Trust's Chief Executive.



## Y Sector Preifat

### Datblygu partneriaethau

Bu'r cwmni Newidiem yn gweithio ar ein rhan i ddatblygu perthynas â'r sector preifat. Fe lwyddon ni i sefydlu partneriaethau gwirfoddol gyda nifer o gwmnïau blaenllaw, megis Grosvenor Waterside a McArthur Glen. Bu Menter Iaith Môn hefyd yn weithgar yn y cyswllt hwn, yn arwain at arwyddo cytundebau partneriaeth rhwng y Bwrdd a thri chwmni ar yr ynys, Stena Line, Alwminiwm Môn a Chwmni Coed Môn. Mae hyn yn dangos yn glir fod rôl bwysig i'r mentrau iaith, sy'n gallu datblygu perthynas glos gyda busnesau ar lefel lleol.

Mae rhestr lawn o'r cwmnïau sydd wedi arwyddo cytundeb partneriaeth gyda'r Bwrdd isod. Byddwn yn cyfarfod y cwmnïau hyn yn flynyddol, i drafod cynnydd dros y flwyddyn ac i gytuno amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cwmnïau sydd wedi arwyddo cytundebau partneriaeth gwirfoddol gyda'r Bwrdd

Abbey National  
 NatWest Cymru  
 Banc Lloyds  
 Grŵp Camelot  
 Cheltenham & Gloucester  
 Cymdeithas Adeiladu Nationwide  
 Gwasanaethau Diogelwch Fraser  
 Tesco  
 Bws Caerdydd  
 ATS Cymru  
 Hybu Bwyd Cymru  
 Barclays Cymru  
 TSB  
 HSBC\*  
 Ysbyty BUPA Caerdydd  
 Siambr Fasnach Caerdydd  
 Grosvenor Waterside  
 McArthur Glen  
 Stena Line  
 Alwminiwm Môn  
 Cwmni Coed Môn

\*Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo polisi iaith Gymraeg HSBC yn swyddogol

### Gwobrau Busnes

Cawsom ymateb ardderchog o bob cwr o Gymru unwaith eto i'r Cynllun Gwobrau Busnes, a oedd yn rhan o wobrau busnes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn. Prif enillydd gwobrau'r Bwrdd yn 1999 oedd Kathy Gittins, Oriel Tŷ Cornel, Meifod, am gatalog yr oriel. Enillydd y categori arwyddion oedd Cware Trefigin, ger Aberteifi, ac enillwyd y categori pecynnu gan Tesco.

Diolch i gwmni Crisial Brenhinol Cymru am y tlysau hardd ar gyfer y gystadlaeth hon ac i Swalec am eu nawdd hael dros ddwy flynedd.

## The Private Sector

### Developing partnerships

The agency Newidiem was contracted to work on our behalf developing partnerships in the private sector. Co-operative relationships were established with several leading companies, including Grosvenor Waterside and McArthur Glen. Menter Iaith Môn was also active in this context, and voluntary partnership agreements were signed between the Board and three companies on the island, Stena Line, Anglesey Aluminium and Anglesey Timber. This demonstrates a clear role for the *mentrau iaith*, in establishing close working relationships with businesses at local level.

A full list of the Board's voluntary partners in the private sector is shown below. We meet these companies annually, to discuss progress and agree aims for the year to come.

Companies which have signed voluntary partnership agreements with the Board

Abbey National  
 NatWest Cymru  
 Lloyds Bank  
 Camelot Group  
 Cheltenham & Gloucester  
 Nationwide Building Society  
 Fraser Security Services  
 Tesco  
 Cardiff Bus  
 ATS Cymru  
 Welsh Food Promotions  
 Barclays Cymru  
 TSB  
 HSBC\*  
 BUPA Hospital Cardiff  
 Cardiff Chamber of Commerce  
 Grosvenor Waterside  
 McArthur Glen  
 Stena Line  
 Anglesey Aluminium  
 Anglesey Timber Trading Co.

\*The Board has officially approved HSBC's Welsh language policy

### Business Awards

An excellent response from all over Wales was again received to the Business Awards Scheme, which was part of the National Eisteddfod's business awards in Anglesey. The main prizewinner in the Board's scheme, for innovative and creative use of the Welsh language on promotional materials was Kathy Gittins, Cornerhouse Gallery, Meifod, for the gallery's catalogue. The signage category was won by Cware Trefigin, near Cardigan, and the packaging category by Tesco.

We are grateful to Welsh Royal Crystal for the beautiful trophies and to Swalec for their generous sponsorship of the scheme for two years.

Yn sgil llwyddiant y cynllun, rydym wedi penderfynu ei ehangu ar gyfer 2000, er mwyn codi proffil dylunio dwyieithog. Cafodd Gwobrau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg eu lansio ar 1 Mawrth 2000. Bwriad y gystadlaeuath newydd yw cydnabod yn ffurfiol am y tro cyntaf yr arbenigedd sydd wedi ei ddatblygu yn y maes yma yng Nghymru. Rydym yn falch dros ben fod yr Eisteddfod Genedlaethol a Gwasanaeth Ymgynghorol Dylunio Cymru yn bartneriaid yn y cynllun cyffrous hwn. Byddwn yn cyhoeddi yr enillwyr cyntaf yn Awst 2000, ac fe fydd arddangosfa o'r deunydd buddugol ym mhafiliwn Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol Llanelli.

Mae nifer o bartneriaid blaenllaw wedi cytuno i noddi'r gwobrau newydd - Awdurdod Datblygu Cymru, Tesco, Nationwide, Camelot a Westdale Press. Hefyd mae LloydsTSB, Banc Barclays, Hughes a CBI Cymru wedi cytuno i noddi agweddau eraill o'r gystadlaeuath. Diolch iddyn nhw i gyd.

**Targed sectorau penodol**

Rydym wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ar nifer o ymgyrchoedd marchnata i dargedu meysydd penodol o fewn y sector preifat. Y meysydd hynny, a fydd yn parhau yn flaenoriaeth dros y flwyddyn i ddod, yw:

- cynhyrchwyr bwyd a diod;
- cwmnïau dylunio;
- y diwydiant arlwyyo a thwristiaeth.

Rydym yn ddiolchgar am gydweithrediad partneriaid pwysig yn y maes, sef Gweithrediaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

Following the success of the scheme, it was decided to expand it for 2000, in order to raise the profile of bilingual graphic design. The new competition, the Welsh Language Board Bilingual Design Awards, aims to give formal recognition for the first time to the expertise which has developed in Wales in this area. We are extremely pleased that the National Eisteddfod and the Welsh Design Advisory Service are our partners in this exciting scheme, which was launched on 1 March 2000. The first winners will be announced this coming August, and the winning material displayed in the Art and Craft Pavilion at the Llanelli National Eisteddfod.

Sponsorship has been attracted from a number of high profile partners - the WDA, Tesco, Nationwide, Camelot and Westdale Press for the individual awards - while Lloyds TSB, Barclays, Hughes and CBI Cymru Wales have agreed to sponsor other aspects of the scheme. We thank them all.

**Targeting specific sectors**

A number of new marketing initiatives were started during the year to target specific areas within the private sector. These areas, which will continue to receive priority over the year to come, are:

- food and drink producers;
- graphic design agencies;
- the hospitality and tourism industry.

We are grateful for the support of important partner agencies in these initiatives, namely the WDA's Food Directorate and the Wales Tourist Board.



Kathy Gittins, Oriel Ty Cornel, Meifod - enillydd Prif Wobr Gwobrau Busnes Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999.

Kathy Gittins, Corner House Gallery, Meifod, winner of the Welsh Language Board's main Business Award, 1999.

## Addysg a Hyfforddiant

### Cynlluniau Addysg Gymraeg

Bellach mae pob Awdurdod Addysg lleol un ai wedi cytuno Cynllun Addysg Gymraeg gyda'r Bwrdd neu wedi cael hysbysiad i lunio Cynllun. Erbyn hyn mae 11 cynllun wedi derbyn cymeradwyaeth, gyda 6 arall i ddod yn y dyfodol agos. Bu'r broses o greu Cynllun Addysg Gymraeg yn gryn her i rai awdurdodau ac mae rhai ohonyn nhw wedi ail ystyried eu darpariaeth Gymraeg yn ofalus fel rhan o'r broses. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad blynyddol ar bob Cynllun sydd wedi ei gytuno. Mae manylion pellach yn Atodiad 5.

### Cynhadledd y Bwrdd ar ddilyniant mewn addysg Gymraeg a dwyieithog

Daeth dros 100 o bobl i'r Cynhadledd hon yn ystod Mai 99. Ei phwrpas oedd trafod papur ymchwil y Bwrdd ar *Dilyniant Mewn Addysg Gymraeg*. Dyma un o'r prif heriau sydd yn wynebu ysgolion cyfrwng Cymraeg a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg.

### Anghenion Addysgol Arbenning (AAA)

Yn dilyn ymateb y Bwrdd i bapur gwyrdd y Swyddfa Gymreig ar addysg anghenion arbennig, rydym wedi cynnal nifer o drafodaethau ar ddarparu ar gyfer disgyblion dwyieithog neu uniaith Gymraeg. Comisiynodd y Bwrdd adroddiad gan Huw Roberts o Brifysgol Cymru, Bangor ar sefyllfa gyfredol AAA trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd cynhadledd deuddydd ar gyfer arbenigwyr AAA cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2000. Y cam nesaf yw creu portffolio anghenion a blaenoriaethau at sylw'r Cynulliad.

Pecyn hyfforddiant ar gyfer byd gwaith *Law yn Llaw*. Cafodd y pecyn hyfforddiant hwn ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Mae'n delio â rheoli yn y gweithle dwyieithog ac yn trafod ffyrdd o gynyddu dealltwriaeth rheolwyr o iaith a dwyieithrwydd. Mae hefyd yn anelu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iaith wrth ddarparu gwasanaethau. Trefnodd y Bwrdd sesiwn hyfforddi arbennig ar y pecyn yn ystod mis Chwefror 2000.



Meirion Prys Jones, Pennaeth Addysg a Hyfforddiant Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda Ray Owen o Brosiect Allweddlaith, yn lansio taflen newydd, Medi 1999.

Meirion Prys Jones, Chief Officer at the Welsh Language Board's Education and Training Department, with Ray Owen, of Allweddlaith, at the launch of their leaflet, September 1999.

Cynhadledd ar ddilyniant mewn addysg Gymraeg, Plas Nanteos, Mai 1999

Conference on Continuity in Welsh Medium education, Nanteos, May 1999

## Education and Training

### Welsh Education Schemes

Every Local Education Authority in Wales has by now either agreed a Welsh Education Scheme with the Board or received a notice to produce one. Eleven schemes have received approval, with six others expected to follow shortly. The process of creating a Welsh Education Scheme has proved to be a significant challenge to some authorities and many of them have carefully reconsidered their Welsh language provision as part of the process of submitting a scheme for approval. The Board receives an annual report on each approved scheme. Further details may be found in Annex 5.

### Conference on continuity in Welsh medium and bilingual education

The Board organised this conference in May 1999 to discuss its research paper on *Continuity in Welsh medium Education*. Over 100 participants attended. Ensuring continuity through the Welsh medium education system is one of the main challenges facing Welsh medium schools and other establishments with an interest in Welsh medium education.

### Special Educational Needs (SEN)

Following the Board's response to the Welsh Office's green paper on special educational needs, discussions were held on provision for bilingual or Welsh speaking pupils, a seriously neglected area. Huw Roberts of the University of Wales Bangor was commissioned to prepare a report on the current Welsh medium SEN situation. A two-day conference was held in Cardiff in February 2000 for Welsh SEN professionals, with the aim of creating a portfolio of needs and priorities to put before the Assembly.

### Hand in Hand workplace training pack

This training pack was launched at the Ynys Môn National Eisteddfod. The pack deals with managing a bilingual workplace and discusses ways of increasing managers' understanding of language and bilingualism, together with raising awareness of the importance of language in service delivery. A training session based on the pack was arranged in February 2000.



### Cymraeg i Oedolion

Yn gynnar yn 1999 cytunodd y Cyngor Cyllido Addysg Bellach i ariannu swydd Swyddog Hyrwyddo Cymraeg i Oedolion am flwyddyn arall. Cafodd y *Strategaeth Cymraeg i Oedolion* ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Môn 1999. Mae'r ddogfen yma'n argymhell sefydlu uned ganolog i fod yn gyfrifol am gynllunio strategol a threfnu'r maes yng Nghymru. Rydym wedi derbyn cefnogaeth frwd i'r *Strategaeth* gan nifer o aelodau'r Cynulliad.

### Grantiau hyrwyddo addysg Gymraeg

Cafodd £2,052,000 ei ddyrannu yn ystod 1999-2000 a £2,118,000 ei gynnig ar gyfer 2000-01. Caiff y grantiau yma eu rhannu o dan bedwar pennawd sef:

- y gwasanaeth athrawon bro ar gyfer y sector ail iaith a iaith gyntaf;
- canolfannau i hwyrddfydiaid;
- cyrsiau preswyl;
- prosiectau peilot.

Mae manylion dyraniad y grantiau addysg yn Atodiad 4.

### Prosiect CELI

Yr Undeb Ewropeaidd sy'n noddi'r prosiect hwn. Fel rhan o'r prosiect mae pedair gwlad Geltaidd - Cymru, Yr Alban, Iwerddon a Llydaw - yn cydweithio i lunio deunyddiau dysgu galwedigaethol. Nod y prosiect yw dangos i fyfyrwyr o'r gwahanol wledydd y manteision yn y gweithle o fod yn ddwyieithog. Eleni cafodd clipiau fideo eu cynhyrchu gan Goleg Meirion Dwyfor a Phrifysgol Morgannwg yng Nghymru a chan Brifysgol Galway yn Iwerddon.

### Safle Gwe Carreg @teb

Mae'r safle gwe wedi ei ddatblygu ar ran y Bwrdd gan Antur Teifi gyda chymorth Aled Evans, Prifathro Ysgol Bryn Saron, Sir Gaerfyrddin. Bwriad y safle yw cynnig fforwm drafod i blant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae gan bob ysgol gyfeiriad e-bost a chyfrinair i alluogi'r disgyblion i sgwrsio â phlant mewn ysgolion eraill. Bydd hyn yn caniatáu iddyn nhw i rannu syniadau ar gyfer prosiectau a themau gwaith yn y cwricwlwm ac i drafod pynciau llosg y mis. Cafodd y safle ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd 1999.



### Ysgol Gymraeg Llundain

Mae'r Bwrdd wedi bod mewn cysylltiad agos ag ymddiriedolwyr Ysgol Gymraeg Llundain. Buom yn trafod lleoliad yr ysgol a sut mae'n bosib diogelu ei dyfodol yn ariannol. Bu'r bwrdd hefyd yn trafod yr ysgol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn sgil y trafodaethau yma, cytunodd y Cynulliad i gynnig swm penodol o arian i'r Bwrdd i'w ddyrannu i Ysgol Gymraeg Llundain, i helpu i benodi un athrawes ychwanegol. Roedd angen yr athrawes hon oherwydd fod nifer y disgyblion wedi tyfu'n ddiweddar.

### Welsh for Adults

Early in 1999 the Further Education Funding Council agreed to fund the position of Welsh for Adults Officer for a further year. The Board's *Welsh for Adults Strategy*, which recommends establishing a central unit responsible for strategic planning and organisation of provision in Wales, was launched at the Ynys Môn National Eisteddfod 1999. The strategy was warmly welcomed by members of the Assembly.

Grants for promoting Welsh language education A total of £2,052,000 was distributed in 1999-2000, and £2,118,000 offered for 2000-01. These grants are awarded under four headings:

- the *athrawon bro* (specialist teachers) service, for second and first language sectors;
- centres for latecomers;
- residential courses;
- pilot projects.

Details of these grant awards are given in Annex 4.

### CELI project

This project is sponsored by the European Union. As part of the project, four Celtic countries - Wales, Scotland, Ireland and Brittany - are co-operating to produce vocational teaching materials. The aim of the project is to demonstrate to students in the different countries the advantages of bilingualism in the workplace. Over the year under review, video clips were produced by Coleg Meirion Dwyfor and the University of Glamorgan in Wales and by Galway University in Ireland.

### Carreg @teb website

The purpose of this website, developed on behalf of the Board by Antur Teifi with the assistance of Aled Evans, Headteacher of Ysgol Bryn Saron, Carmarthenshire, is to offer children in Welsh medium primary schools an on-screen chatroom. Each school has an e-mail address and password enabling the children to chat with children in other schools, to share ideas for projects and work themes in the curriculum and to discuss topical issues. The site was launched at the Urdd Eisteddfod in 1999.

### London Welsh School

The Board has been in close contact with the trustees of the London Welsh School. We discussed the location of the school and the possibilities regarding safeguarding its financial future. The Board also discussed the school with the National Assembly for Wales. As a result of these discussions, the Assembly agreed to offer a fixed sum to the Board for distribution to the London Welsh School, to help appoint an additional teacher. This teacher was needed because pupil numbers have risen recently.

## Grantiau

Yn ystod blwyddyn ariannol 1999-2000, rhoddodd y Bwrdd grantiau gwerth £2,328,000 o dan ei brif gynllun grantiau, ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Derbyniodd cyrff, yn amrywio o Fudiad Ysgolion Meithrin i Gymdeithas y Tiwtoriaid, gefnogaeth o dan y cynllun hwn. Mae'r prif gynllun grantiau yn fodd effeithiol o hybu partneriaethau a chynyddu gweithgarwch yng nghyd-destun y *Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg*. Rhoddwyd £2,052,000 ar gyfer hyrwyddo addysg Gymraeg (gweler tud. 19 am fanylion) a £13,000 dan y Cynllun Grantiau Bach i ysgogi sefydliadau sector preifat a gwirfoddol i gynhyrchu deunyddiau marchnata yn ddwyieithog.

Cynyddodd y grantiau i'r rhwydwaith mentrau iaith yn ystod y flwyddyn, i gyfanswm o £299,000. Mae hyn yn ein galluogi i gefnogi gweithgareddau sy'n tyfu'n uniongyrchol o'r gymuned leol ar gyfer datblygu'r gymuned honno yn gymdeithasol ac yn ieithyddol. Yn dilyn llwyddiant y gweithdy cyntaf ar gyfer y mentrau iaith yn ystod 1998-99, bu ail gyfle iddynt rannu syniadau a thrafod eu cynlluniau at y dyfodol ym Mhlas Tan-y-Bwlch yn Ebrill 1999. Rydym yn datblygu safle gwe ar gyfer y mentrau iaith, a fydd yn cael ei lansio yn 2000-2001.

Elfen arall o gefnogaeth ar lefel gymunedol yw'r grantiau i'r papurau bro, sef £52,500 yn 1999-2000. Bu'n bosib i ni gynnig nawdd unwaith eto yn ystod y flwyddyn i bapurau bro i brynu offer cyfrifiadurol er mwyn datblygu diwyg a delwedd gyfoes. Derbyniodd bedwar papur hyd at £1,000 yr un o dan y cynllun hwn.

## Grants

During the 1999-2000 financial year, grants worth £2,328,000 were distributed under the Board's main grants scheme, for promoting and facilitating the use of the Welsh language. Organisations varying from Mudiad Ysgolion Meithrin (the national association of Welsh medium playgroups) to the Tutors' Association, received sums under this scheme. The main grants scheme is an effective means of promoting partnerships and increasing the activities in the context of the *Strategy for the Welsh language*. A total of £2,052,000 was also distributed for the promotion of Welsh language education (see page 19 for details), and a further £13,000 under the Small Grants Scheme to encourage private and voluntary sector organisations to produce bilingual marketing materials.

The grants to the national network of *mentrau iaith* (local language initiatives) increased during the year, to a total of £299,000. This allows us to support activities which stem directly from local communities and allow these communities to develop socially and linguistically. Following the success of the first workshop arranged for the *mentrau iaith* during 1998-99, the Board provided a second opportunity for them to share ideas and discuss plans for the future at Plas Tan-y-Bwlch in April 1999. We are developing a website for the *mentrau iaith*, which will be launched during 2000-2001.

Another example of supporting community activity is the grants to *papurau bro* (local Welsh-language newspapers), which totalled £52,500 in 1999-2000. Sponsorship was again offered to the *papurau bro* for purchasing computer equipment to develop a contemporary image and design. Four papers received up to £1,000 each under this scheme.

Staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymuno yn nathliadau Dydd y Llyfr, wedi ei drefnu gan Gyngor Llyfrau Cymru, Ebrill 1999.

Welsh Language Board Staff join in the celebrations on World Book Day, organised by the Welsh Books Council, April 1999.

Tom Middlehurst AC mewn Diwrnod Cymraeg yng Nghanolfan Siopa Brychdyn, wedi ei drefnu gan Fenter Iaith Sir y Fflint.

Tom Middlehurst AM at the Welsh Day in Broughton Shopping Centre, arranged by Menter Iaith Sir y Fflint.



### Arolygon o'r grantiau

Fel rhan o'i atebolrwydd dros wariant arian cyhoeddus, bydd y Bwrdd yn cynnal arolwg annibynnol bob 6 mlynedd o grantiau dros £200,000 y flwyddyn.

Cafodd arolwg cwmni Grant Thornton o grant y Bwrdd i Gyngor Llyfrau Cymru ei gyhoeddi ym mis Medi 1999. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Llyfrau yn paratoi ymateb i'r adroddiad, mewn cydweithrediad â'r diwydiant cyhoeddi - yn cynnwys awduron, cyhoeddwr a llyfrwerthwyr. Bydd hyn yn gosod sylfaen ar gyfer datblygiad y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Bwrdd wedi comisiynu Cwmni Iaith Cyf i gynnal arolwg o'r grant i'r mentrau iaith yn ystod 2000-01.

### Grantiau ar gyfer 2000-01

Cyhoeddodd y Bwrdd benderfyniadau ar y ceisiadau o dan y prif gynllun grantiau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01 ym mis Chwefror 2000. Cynigiwyd cyfanswm o £2,559,000 i 31 o sefydliadau yn ogystal â £2,118,000 fel grantiau penodol ar gyfer hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae hyn yn gynydd o 6% ar grantiau 1999-2000. Mae manylion grantiau 1999-2000 a chynigion 2000-01 yn Atodiad 4.

### Grant reviews

As part of its accountability for public expenditure, the Board conducts an independent review every 6 years of grants of over £200,000 a year.

Consultants Grant Thornton were appointed to conduct a review of the Board's grant to the Welsh Books Council, and their report was published in September 1999. The Books Council is preparing a response to this report, in co-operation with the publishing industry - including authors, publishers and booksellers. This will form the basis for the development of the publishing industry in Wales over the coming years.

Cwmni Iaith Cyf was commissioned to conduct a review of the Board's grant to the *mentrau iaith* during 2000-01.

### Grants for 2000-01

The Board announced its decision on the applications under the main grants scheme for 2000-01 in February 2000. A total of £2,559,000 was offered to 31 organisations. In addition £2,118,000 were offered as specific grants for the promotion of Welsh language education. These figures represent an increase of 6% on the grants distributed in 1999-2000.

Details of the 1999-2000 grants paid and the 2000-01 offers are given in Annex 4.

Dwy Iaith  
Dwywaith y Dewis  
Two Languages  
Twice the Choice

## Datganiad Ariannol Cryno am y flwyddyn i 31 Mawrth 2000

Datganiad Archwilydd Cyffredinol Cymru  
i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf wedi ystyried y datganiad ariannol cryno ar  
dudalennau 23 i 25 sydd wedi ei baratoi yn y ffurf  
a'r sail a osodwyd yn nodyn 1 ar dudalen 25.

Cyfrifoldebau perthnasol y Bwrdd,  
y Prif Weithredwr a'r Archwilwyr  
Cyfrifoldeb y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yw'r  
datganiad ariannol cryno. Fy nghyfrifoldeb i yw  
datgan i chwi fy marn ar ei baratoad ac ar ei gysondeb  
â'r datganiadau ariannol llawn a'u rhagymadrodd.

Sail fy marn

Gwnes fy ngwaith yn unol â'r Canllaw Archwilio  
"*The auditor's statement on the summary financial statement*"  
fel a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiad ariannol cryno yn  
gyson â datganiadau ariannol llawn Bwrdd yr Iaith  
Gymraeg, a'u rhagymadrodd, am y flwyddyn a  
ddaeth i ben 31 Mawrth 2000 ac fe'i paratowyd yn  
gywir ar y sail a osodwyd yn nodyn 1 i'r Datganiad  
Ariannol Cryno.

John Bourn  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
1 Mehefin 2000

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

## Summary Financial Statement for the year to 31 March 2000

Statement of the Auditor General for Wales  
to the National Assembly for Wales

I have examined the summary financial statement  
on pages 23 to 25 that has been prepared in the  
form and on the basis set out in note 1 on page 25.

Respective responsibilities of the Board,  
the Chief Executive and Auditor  
The summary financial statement is the  
responsibility of the Board and the Chief Executive.  
My responsibility is to report to you my opinion on  
its preparation and consistency with the full  
financial statements and foreword.

Basis of opinion

I have conducted my audit of the statement in  
accordance with the Auditing Guideline "*The auditor's  
statement on the summary financial statement*" as adopted  
by the Auditing Practices Board.

Opinion

In my opinion the summary financial statement is  
consistent with the full financial statements and  
foreword of the Welsh Language Board for the year  
ended 31 March 2000 and has been properly  
prepared on the basis set out in note 1 to the  
Summary Financial Statement.

John Bourn  
Auditor General for Wales  
1 June 2000

Auditor General for Wales  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff CF99 1NA



## Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2000

## Income and Expenditure Account for the year to 31 March 2000

	1999-2000		1998-1999		
	£'000	£'000	£'000	£'000	
<b>Incwm gros</b>					<b>Gross income</b>
Cymorth Grant	<b>5,924</b>		5,754		Grant In Aid
Grant y Comisiwn Ewropeaidd	<b>7</b>		60		European Commission Grant
Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru	<b>35</b>		19		Further Education Funding Council for Wales
Rhyddhau Grant Gohiriedig y Llywodraeth	<b>66</b>		52		Release of Deferred Government Grant
Incwm gweithredol	<b>28</b>		34		Operating income
Incwm arall	<b>11</b>		36		Other income
		<b>6,071</b>		<b>5,955</b>	
<b>Gwariant</b>					<b>Expenditure</b>
Grantiau	<b>4,417</b>		4,252		Grants
Cyflogau	<b>810</b>		789		Salaries
Gwariant uniongyrchol	<b>362</b>		341		Direct expenditure
Gweinyddu	<b>437</b>		538		Administration
Dibrisiant	<b>66</b>		49		Depreciation
Llog tybiedig ar gyfalaf	<b>12</b>		13		Notional interest on capital
		<b>6,104</b>		<b>5,982</b>	
(Diffyg) ar weithgareddau gweithredol		<b>(33)</b>		<b>(27)</b>	(Deficit) on operating activities
Llog a dderbyniwyd		<b>9</b>		<b>10</b>	Interest receivable
Swm sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru		<b>(9)</b>		<b>(10)</b>	Amount payable to the National Assembly of Wales
Addasiad am log tybiedig ar gyfalaf		<b>12</b>		<b>13</b>	Adjustment for notional interest on capital
(Diffyg) a gadwyd am y flwyddyn		<b>(21)</b>		<b>(14)</b>	(Deficit) Retained for the year

## Mantolen ar 31 Mawrth 2000

## Balance Sheet at 31 March 2000

	1999-2000		1998-1999		
	£'000	£'000	£'000	£'000	
<b>Asedion Sefydlog</b>					<b>Fixed Assets</b>
Asedion Cyffyrddadwy		129		166	Tangible Assets
<b>Asedion Cyfredol</b>					<b>Current Assets</b>
Stoc	4		8		Stock
Dyledwyr	130		148		Debtors
Arian yn y Banc ac mewn Llaw	100		90		Cash at Bank and in Hand
	<b>234</b>		<b>246</b>		
<b>Credydwyr</b>					<b>Creditors</b>
Swm a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn	(195)		(187)		Amount falling due within one year
<b>Asedion Cyfredol Net</b>		<b>39</b>		<b>59</b>	<b>Net Current Assets</b>
<b>Cyfanswm Asedion Llai Rhwymedigaethau Cyfredol</b>		<b>168</b>		<b>225</b>	<b>Total Assets Less Current Liabilities</b>
<b>Ariannwyd Gan:</b>					<b>Financed By:</b>
<b>Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Phriddiannau</b>		2		1	<b>Provision for Liabilities and Charges</b>
<b>Croniadau ac Incwm Gohiriedig</b>					<b>Accruals and Deferred Income</b>
Grant Gohiriedig y Llywodraeth	129		166		Deferred Government Grant
<b>Cyfalaf a Chronfeydd</b>					<b>Capital and Reserves</b>
Cronfa Gyffredinol	37		58		General Fund
<b>Cronfeydd y Llywodraeth</b>		<b>166</b>		<b>224</b>	<b>Government Funds</b>
		<b>168</b>		<b>225</b>	

## Nodiadau i'r Datganiad Ariannol Cryno am y flwyddyn i 31 Mawrth 2000

### 1 Sail Cyfrifo

Lluniwyd y datganiad ariannol cryno yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol, wrth gyfeirio at y Ddeddf Gwmniau 1985 a'r Cyfarwyddiadau Cwmniau 1995 - O.S. 1995/2092, gyda chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'r datganiad ariannol cryno hwn yn cynnwys digon o wybodaeth ar gyfer deall canlyniadau'r Bwrdd am y cyfnod neu ei sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod. Yr oedd adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn i 31 Mawrth 2000 heb ei gymhwyso ac ni wnaethpwyd adroddiad. Os am ragor o wybodaeth dylid cysylltu â swyddfa'r Bwrdd am gopi rhad ac am ddim o'r adroddiad ariannol cyflawn.

### 2 Canlyniadau a chyfeddiant

Yr oedd cyfanswm y cyllid a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2000 yn £5,953,000. O'r cyfanswm hwn, yr oedd £29,000 ar gyfer gwariant cyfalaf. Y diffyg am y flwyddyn oedd £21,000.

### 3 Costau Staff ac Aelodau

	Staff Staff 1999-2000 £'000	Aelodau Members 1999-2000 £'000	Cyfanswm Total 1999-2000 £'000	Staff Staff 1998-1999 £'000	Aelodau Members 1998-1999 £'000	Cyfanswm Total 1998-1999 £'000	
Cyflwg Gros	602	75	677	580	80	660	Gross Salary
Yswiriant Gwladol	45	4	49	44	5	49	National Insurance
Cyfranddaliadau Pensiwn	84	-	84	80	-	80	Pension Contributions
	<b>731</b>	<b>79</b>	<b>810</b>	<b>704</b>	<b>85</b>	<b>789</b>	
Niferoedd Cyfartalog	<b>27</b>	<b>9</b>	<b>36</b>	<b>28</b>	<b>11</b>	<b>39</b>	Average Numbers

## Notes to the Summary Financial Statement for the year to 31 March 2000

### 1 Accounting Conventions

The summary financial statement has been prepared under the historical cost convention, with reference to The Companies Act 1985 and The Companies Regulations 1995 - SI 1995/2092, and complies with the directions given by the National Assembly of Wales. This summary financial statement does not contain sufficient information to allow for a full understanding of the results of the Board for the period or its state of affairs at the end of the period. The auditor's report on the full financial statements for the year ended 31 March 2000 was unqualified and no report was made. For further information, contact the Board's office for a free copy of the full financial statements.

### 2 Results and appropriations

Total National Assembly for Wales finance provided during the year to 31 March 2000 amounted to £5,953,000. Of this sum, £29,000 was for capital expenditure. The deficit for the year was £21,000.

### 3 Staff and Members' Costs

	1999-2000 £'000	1998-1999 £'000	
Cyflwg y Prif Weithredwr	56	54	Chief Executive's Salary
Bonws Perfformiad y Prif Weithredwr	4	3	Chief Executive's Performance Bonus
Cyfranddaliadau Pensiwn y Prif Weithredwr	10	10	Chief Executive's Pension Contributions
	<b>70</b>	<b>67</b>	
Cyflwg y Cadeirydd (Yr Arglwydd Elis-Thomas 1.4.98-28.2.99)	-	22	Chairman's Salary (Lord Elis-Thomas 1.4.98-28.2.99)
Cyflwg y Cadeirydd (Rhodri Williams 1.3.99-31.3.00)	24	2	Chairman's Salary (Rhodri Williams 1.3.99-31.3.00)


Yr oedd aelodau'r Bwrdd ar gyflwg o £5,931 y flwyddyn yn 1999-2000 (£5,769 y flwyddyn yn 1998-1999).

The Board members' salary was £5,931 a year in 1999-2000 (£5,769 a year in 1998-1999).

Nid yw'r Bwrdd yn gweithredu cynllun ceir.

The Board does not operate a car scheme.

Swyddog Cyfrifo  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg 19 Mai 2000

  
John Walter Jones

Accounting Officer  
Welsh Language Board 19 May 2000

## Atodiad 1 Cefndir

### Statudol

Cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei sefydlu fel corff statudol anadrannol ar 21 Rhagfyr 1993 gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Bwrdd drwy grant o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y cyfrifoldebau noddi eu trosglwyddo o'r Swyddfa Gymreig i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999.

Prif swyddogaeth y Bwrdd yn ôl y Ddeddf yw 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'. Ac wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, mae gan y Bwrdd dri phrif ddyletswydd:

- Cyngori cyrff sy'n paratoi cynlluniau iaith ar y dull o weithredu egwyddor ganolog y Ddeddf - trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- Cyngori'r sawl sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar faterion sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg.
- Cyngori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Yn ymarferol, mae gan y Bwrdd bum swyddogaeth graidd:

- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Cyngori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith.
- Rhoi grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith.
- Cadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg.

Caiff gwaith y Bwrdd ei asesu'n flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â thargedau mesuradwy. Mae asesiad o berfformiad y Bwrdd yn erbyn targedau 1999-2000 yn Atodiad 3.

### Aelodaeth y Bwrdd

Caiff aelodau'r Bwrdd eu penodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y cyfrifoldeb yma ei drosglwyddo i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Cyn hynny, Ysgifennydd Gwladol Cymru oedd yn gyfrifol am benodi aelodau'r Bwrdd. Mae disgwyl i'r Cadeirydd neilltuo dau ddiwrnod yr wythnos i faterion y Bwrdd, gyda'r aelodau'n neilltuo dau ddiwrnod y mis.

## Appendix 1 Background

### Statutory

The Welsh Language Board was established on 21 December 1993, under the terms of the Welsh Language Act 1993, as a non-departmental statutory organisation. The majority of the Board's funds are through a grant from the National Assembly for Wales. Sponsorship responsibilities were transferred to the Assembly from the Welsh Office on 1 July 1999.

The Board's main role according to the Act is 'to promote and facilitate the use of the Welsh language'. In fulfilling this role, the Board has three main duties:

- Advising organisations which are preparing language schemes on the mechanism of implementing the central principle of the Act, that the Welsh and English languages should be treated on a basis of equality.
- Advising those who provide services to the public in Wales on issues relevant to the Welsh language.
- Advising the National Assembly for Wales on issues relating to the Welsh language.

In practice, the Board has five core functions:

- Promoting and facilitating the use of the Welsh language
- Advising on and influencing issues relating to the Welsh language.
- Initiating and overseeing the process of preparing and implementing language schemes.
- Distributing grants for promoting and facilitating the use of the language.
- Maintaining a strategic overview of Welsh language education.

The Board's work is assessed annually by the National Assembly for Wales against measurable targets. An assessment of the Board's performance against targets for 1999-2000 are given in Annex 3.

### Membership of the Board

Board members are appointed by the National Assembly for Wales. This responsibility was transferred to the Assembly on 1 July 1999. Prior to this, the Secretary of State for Wales was responsible for appointing Board members. The Chairman is expected to devote two days per week to Board matters, with members devoting around two days per month.

Cafodd aelodau'r Bwrdd dros gyfnod yr adroddiad blynyddol hwn eu penodi ar 21 Rhagfyr 1996 yn unol ag argymhellion y Pwyllgor ar Safonau Mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan). Daeth eu haelodaeth i ben ar 31 Mawrth 2000. Y 10 aelod yma oedd:

- 1 Rhodri Williams Cadeirydd  
Cyfarwyddwr Rhaglenni, Grwp Cyfryngau Agenda
- 2 Dr Medwin Hughes Is-Gadeirydd  
Dirprwy Bennaeth Coleg y Drindod Caerfyrddin
- 3 Elan Closs Stephens  
Cadeirydd Awdurdod S4C
- 4 Yr Athro Colin Baker  
Athro Addysg, Coleg Prifysgol Cymru Bangor
- 5 Ann Beynon  
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru, BT
- 6 Jeffrey Morgan  
Cyfrifydd Annibynnol
- 7 Y Cynghorydd Gareth Winston Roberts  
Aelod o Gyngor Sir Ynys Môn
- 8 Y Parchedig Ddr Patrick Thomas  
Rheithor Brechfa
- 9 Godfrey Williams  
Rheolwr Gyfarwyddwr Sain y Gororau
- 10 Gwyn Griffiths  
Cyfreithiwr yn Nhreffynnon (hyd at 24 Medi 1999)

Yn sgil ei benodiad yn Gyfreithiwr gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ymddiswyddodd Gwyn Griffiths fel aelod or Bwrdd ar 24 Medi 1999.



1




2




3



4



5



6



7



8



9



10

The Board members over the period covered by this report were appointed on 21 December 1996 in accordance with the recommendations of the Committee on Standards in Public Life (the Nolan Committee). Their term of office ended on 31 March 2000. These 10 were:

- 1 Rhodri Williams Chairman  
Director of Programming, Agenda Media Group
- 2 Dr Medwin Hughes Vice-Chairman  
Vice-Principal, Trinity College Carmarthen
- 3 Elan Closs Stephens  
Chair, S4C Authority
- 4 Professor Colin Baker  
Professor of Education at the University of Wales Bangor
- 5 Ann Beynon  
National Director for Wales, BT
- 6 Jeffrey Morgan  
Independent Accountant
- 7 Cllr Gareth Winston Roberts  
Member of Anglesey County Council
- 8 The Reverend Dr Patrick Thomas  
Rector of Brechfa
- 9 Godfrey Williams  
Managing Director Marcher Sound
- 10 Gwyn Griffiths  
Solicitor, Holywell (to 24 September 1999)

Following his appointment as a solicitor with the National Assembly for Wales, Gwyn Griffiths resigned as a member of the Board on 24 September 1999.

Mae'r ddogfen Cod Arferion i Aelodau'r Bwrdd yn cyfeirio at yr angen i sefydlu Pwyllgor Archwilio, a sicrhau fod trefniadau cymwys yn eu lle ar gyfer archwilio. Cyfarfu'r Pwyllgor ym mis Mai 1999, ar gyfer cyflwyniad gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. Ni ddaeth yr archwilwyr o hyd i unrhyw achosion o wendidau arwyddocaol yn y rheolaeth. Roedd pedwar aelod i'r Pwyllgor Archwilio: Jeffrey Morgan (Cadeirydd), Dr Medwin Hughes, Elan Closs Stephens, a Godfrey Williams.

Mae'n ofynnol hefyd i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgor Tâl y Prif Weithredwr, er mwyn penderfynu ar ei ddyfarniadau cyflog. Roedd tri aelod i'r pwyllgor hwn: y Cadeirydd, Elan Closs Stephens a Godfrey Williams.


Aelodaeth y Bwrdd o 1 Ebrill 2000

Ar 28 Mawrth 2000, cyhoeddodd Tom Middlehurst AC, Ysgrifennydd y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros yr Iaith Gymraeg, enwau 10 aelod y Bwrdd am y cyfnod 1 Ebrill 2000 tan 31 Mawrth 2003. Yr aelodau yw:


- 1 Gwyn Bartley: *Partner mewn cwmni o gyfreithwyr, Cadeirydd Cangen Gogledd Cymru o Gydffederasiwn Diwydiannau Prydain*
- 2 Sue Camper: *Asiant Banc Lloegr yng Nghymru, Cyfarwyddwr Sefydliad Materion Cymreig*
- 3 Bethan Guilfoyle: *Prifathrawes Ysgol Gyfun Treorci*
- 4 Gwawr Hughes: *Pennaeth Rhaglen MEDIA'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru*
- 5 Dr Medwin Hughes: *Prifathro Etholedig Coleg y Drindod, Caerfyrddin*
- 6 Dr Arun Midha: *Cyfarwyddwr Cynorthwyol Adran Iechyd y Cyhoedd yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru*
- 7 Rhiannon Walters: *Athrawes Gymraeg ail iaith*
- 8 Yr Athro Colin Williams: *Athro Ymchwil mewn Sosio-ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd*

Yn ogystal â'r uchod, cafodd yr Athro Colin Baker a Jeffrey Morgan eu penodi am ail dymor dros yr un cyfnod.


Cyhoeddodd Mr Middlehurst ar 21 Ebrill 2000 fod Rhodri Williams wedi ei benodi'n Gadeirydd y Bwrdd am gyfnod o dair blynedd hyd at 30 Ebrill 2003.



1



2




3




4



5



6



7



8

